

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ionawr 10 2023

Presennol: Cynghorwyr :- Aled Griffith, John Gwynedd Roberts, Gwilym Jones, Carol Hayes, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Alwyn Gruffydd, Connor Westwood, Dr Melfyn Edwards, Llinos Murphy Marian Roberts (Clerc)

258.1.23. Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :- Michael Roberts, Sandra Bodden-Jones

259.1.23 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb gan obeithio iddynt fwynhau y gwyliau. Roedd yn dymuno datgan ei gydymdeimlad personol ac ar ran y Cyngor Tref tuag at y Cyng Sandra Bodden Jones a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth diweddar o gollu ei mam yng nghyfraith Mrs Winifred Bodden Jones ar ddydd Nadolig. Roedd yn cyfeirio hefyd at yr rhai oedd wedi ei chael hi'n anodd dros gyfnod y Nadolig oherwydd unigrwydd neu salwch.

Cyfeiriodd at y tywydd eithriadol o wlyb sydd wedi bod yn ddiweddar. Roedd hyn yn ei atgoffa o ddigwyddiad fydd yn digwydd yn y Ganolfan ar Ionawr 26 a 27, sef arddangosfa o ganlyniadau modelu llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Er fod y Cynghorwyr eisoes wedi cael cyflwyniad o'r wybodaeth roedd yn pwysu arnynt i fynychu'r arddangosfa ac i annog y cyhoedd i ddod i weld yr arddangosfa oherwydd ei bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn am y perygl o lifogydd sy'n wynebu holl drigolion ardal Porthmadog. Bydd yr arddangosfa hefyd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Glaslyn maes o law.

Roedd yn falch i gael croesawu aelod newydd i'r Cyngor Tref sef, John Gwynedd Roberts fydd yn cynrychioli ward Borth y Gest. Roedd yn diolch iddo am wirfoddoli ac am roi ei amser i gynrychioli ei gymuned ar y Cyngor Tref.

260.1.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :- Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Rhagfyr 13 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.

261.1.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

262.1.23 Ffurfioli trosglwyddo Cyng Connor Westwood o'r Ward Ddwyreiniol i Ward Morfa Bychan.

Yn dilyn ymddeoliad Selwyn Griffiths fel aelod dros Morfa Bychan yn ddiweddar bu'n rhaid dilyn y drefn gyfreithiol o roi rhybudd o sedd wag a rhybudd o gyfethol aelod yn ei le. Gan na chafwyd ymgeisydd arall bydd Cyng Connor Westwood yn trosglwyddo felly o'i sedd yn y Ward Ddwyreiniol i'r sedd yn ward Morfa Bychan yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

263.1.23 Ffurfioli Cyfethol John Gwynedd Roberts yn Gynghorydd Tref dros ward Borth y Gest.

Arwyddodd Cyng John Gwynedd Roberts y ffurflen Datganiad o Dderbyn Swydd ym mhresenoldeb aelodau'r Cyngor a chafodd ei dderbyn yn gyflawn aelod o'r Cyngor Tref dros ward Borth y Gest.

264.1.23 Ethol aelod i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyniodd Cyng Connor Westwood y swydd yn dilyn cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

265.1.23 Cyng Gwilym Jones – Adroddiad o gyfarfod â Steffan Prys Roberts ar 14.12.22

Roedd Cyng Gwilym Jones wedi cael cyfarfod gyda Steffan Prys Roberts am tua awr ar 14.12.22 ac roedd yn fwrriad gan Steffan Prys gael gair pellach gyda'r Cyng Nia Jeffreys a Selwyn Griffiths. Roedd Cyng Gwilym Jones wedi adrodd wrtho fod y Cyngor Tref yn awyddus iawn i harddu tref Porthmadog trwy osod mwy o gerfluniau, byrddau gwybodaeth ac ati o gwmpas y dref er mwyn hyrwyddo'r diddordeb mewn hanes a diwylliant lleol ymysg pobl leol ac ymysg ymwelwyr. Roedd am wneud yn siwr fod Porthmadog yn cael lle dyledus mewn unrhyw fanteision a ddaw yn sgil derbyn statws Safle Treftadaeth y Byd yn ddiweddar. Yn dilyn ymholiad gan Cyng Dr Melfyn Edwards nodwyd bod Cyng Gwilym Jones a'r Cyng Llywelyn Rhys yn aelodau o'r Fforwm Llechi sydd wedi ei sefydlu i drafod materion ynglyn â statws Safle Treftadaeth y Byd a chytunodd Cyng Gwilym Jones i adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref yn dilyn y cyfarfod nesaf o'r Fforwm.

266.1.23 Cyng Carol Hayes - Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Clwb Hwyllo Porthmadog (Madoc Yacht Club) a'r Cyfreithiwr perthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ofyn am hawliau cyfreithlon y Clwb i alw'r darn tir yn eiddo preifat. Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

267.1.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Chwefror 14 2023 = Chwefror 4 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”).

- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr llwybrau cyhoeddus Coed Borth y Gest a Chae Llety.
- **Cyng Dr Melfyn Edwards** - cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddiariad am y sefyllfa yng Nghors Borth y Gest.
- **Cyng Llywelyn Rhys** – cynnig holi Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd os oes cais wedi dod i law i osod canllaw ar y Gisiau Mawr.

268.1.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Cafwyd sylwadau am y llythyrau canlynol :-

19.12.22 **Chwarae Teg** – roedd Cyng Carol Hayes am gofnodi ei diolch i'r Clerc am ei gwaith yn llenwi a gyrru'r ffurflen gais ar gyfer y Plac Porffor.

13.11.22 **Myfanwy Gloster** – Caru Port -roedd Cyng Llywelyn Rhys am dynnu hwn oddiar y rhestr gan fod y Nadolig wedi pasio ond cytunwyd i'w adael ac i ddechrau trafod gweithgareddau Nadolig 2023 yng nghyfarfod mis Chwefror. Nodwyd mai'r Cyng Michael Roberts yw cynrychiolydd y Cyngor Tref ar bwylgor Caru Port ac y gall yntau adrodd yn ôl i'r Cyngor ar unrhyw gyfarfod a gynhelir o bwylgor Caru Port.

13.11.22 **David Charles Williams** – Tim Tacluso C.G. – roedd Cyng Carol Hayes yn cynnig holi rhywun arall i lanhau'r fainc. Eglurodd y Clerc iddi holi David Charles Williams a Thim Tacluso C.G. oherwydd mai eiddo a chyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydi pob mainc yn nhref Porthmadog ar wahân i fainc goffa Glenda Burke yn y Parc; mainc Bryn Coffa a'r ddwy fainc ar Gae Chwarae Bodawen sydd yn eiddo i'r Cyngor Tref. Penderfynwyd tynnu'r cynnig yn ôl.

GOHEBIAETH :

269.1.23 STEFFAN PRYS ROBERTS C.G., Cyfarfod sefydlu 'Hwb ym Mhorthmadog'

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a nodwyd bod y Cyng Sandra Bodden Jones am fynychu'r cyfarfod ar 16.1.23.

270.1.23 ELIN WYN HUWS C.G., Gosod y Praesept am 2023-2024

Tabl Sylfaen Drethiannol Cymunedau Gwynedd

Tabl i ddangos cynnydd yn y Praesept

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth. Gweler Cofnodion 286.1.23 isod.

271.1.23 ANDREW BRADLEY, Camper vans ar draeth Morfa Bychan

Penderfynwyd :- debyn y wybodaeth a'r Clerc i holi Cyngor Gwynedd am union leoliadau'r "Aires" arfaethedig ar gyfer Camper Vans a hysbysu Andrew Bradley o ganlyniad trafodaeth heno yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

272.1.23 WIL KINGSHOTT

Ymateb i 235.12.22 gwasanaeth coffa dwyieithog

Copi o wasanaeth coffa 2022

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

273.1.23 ADRA , Ymateb i 234.12.22 Tai gwag Pensyflog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

274.1.23 STEPHEN HARRHY, Ymateb i 240.12.22 - ail yrru llythyr 216.11.22

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

275.1.23 GRŴP CYNEFIN, Ymateb i 234.12.22 Tai gwag Pensyflog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

276.1.23 CYNGOR GWYNEDD, Newidiadau cyflymder arfaethedig

Dangoswyd y map o'r ardal ar y sgrin a chafwyd trafodaeth ynglyn â'r mater. Roedd peth amheuaeth ynglyn â chywirdeb y cynllun ar y map ond nodwyd fod pob man sydd â chyfyngder o 30m.y.a. ar hyn o bryd yn mynd yn 20m.y.a. yn y cynllun oni nodir yn wahanol ar y map. Eglurwyd y gallai'r Cyngorwyr gynnig eu safbwynt a'u barn bersonol trwy ymateb yn unigol i'r llythyr.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ymateb drwy wneud cais i ddod â'r cyfyngder i lawr o 60m.y.a i 40m.y.a ar hyd y Cob a chyn cyrraedd 20m.y.a wrth ddod i mewn i'r dref a chynnwys Stryd yr Eglwys ar y map yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Connor Westwood yn eilio. Cytunwyd y byddai Cyng Aled Griffith yn cydweithio â'r Clerc er mwyn ymateb i'r llythyr.

277.1.23 FFION GWYN, Comisiwn newydd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a thrafod y mater ymhellach yng nghyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 31.1.23.

278.1.23 DYLAN ELLIS, Ymateb i 253.12.22 Bwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

279.1.23 CYNGOR TREF PWLLHELI, Ambiwllans Awyr

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ateb yn ôl i ddweud bod y Cyngor Tref eisoes wedi mynegi eu gwrthwynebiad i'r cynllun arfaethedig.

280.1.23 IWAN EVANS C.G., Ymateb i 233.12.22 hawl tramwy Cei Newydd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

281.1.23 ELFED WILLIAMS –YES CYMRU, Cais am gyfraniad

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a thrafod ymhellach ym mis Chwefror.

282.1.23 RICHARD WILLIAMS, Man croesi Bank Place

Eglurodd y Cyng Gwilym Jones fel yr oedd y sefyllfa wedi gwella rhywfaint ers symud y man croesi yn uwch i fyny stryd Bank Place. Dywedodd hefyd ei fod yn fwriad gan Gyngor Gwynedd i osod un lle parcio anabl o flaen y Swyddfa Bost ar ochr Bank Place ac efallai un arall ar ochr y Stryd Fawr.

Penderfynwyd :- ysgrifennu yn ôl i Richard Williams i ddiolch iddo am ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Tref a chynnwys y wybodaeth uchod ac i adrodd y rhoddir cyfle i'r Cynghorwyr drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf os ydynt yn dymuno ei roi ar y Rhaglen.

283.1.23 Copi o Gytundeb Toiledau 2019-2020

Erbyn hyn mae'r Cyngor Tref wedi derbyn Rhybudd Terfynol i dalu bil toiledau 2022-2023 sydd yn bygwth camau cyfreithiol yn erbyn y Cyngor os na chaiff y bil ei dalu neu drosglwyddo'r mater i Asiantaeth Casglu Dyledion. Wedi trafod oblygiadau hyn a gwyntyllu'r posibilrwydd o ail negydu cytundeb newydd aethpwyd i bleidlais.

Penderfynwyd :- Talu'r arian sy'n ddyledus a thrafod y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Chwefror yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Connor Westwood yn eilio.

284.1.23 STEFFAN PRYS ROBERTS C.G., Ymateb i 249.12.22 sefydlu Hwb Cefnogi

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

285.1.23 PAULINE WILLIAMS, Cynrychiolaeth ar Bwyllgor y Ganolfan

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

MATERION ARIANNOL :

286.1.23 Penderfynu ar y Praesept 2023-2024 – gweler Gohebiaeth 2,2(a) a 2(b)

Cafwyd trafodaeth hir ynglyn â'r mater pwysig yma ac ystyrwyd ei adael yr un fath; ei godi 5%; ei godi 3%.

Ymhlith y dadleuon dros **beidio a chodi'r** Praesept oedd :-

- Sefyllfa iach iawn yng nghoffrau'r Cyngor Tref
- Anodd cyfiawnhau codi'r Praesept mewn amser o gynni ar bawb
- Incwm sylweddol i ddod eto o'r Incwm meysydd parcio
- Y Cyngor Tref mewn sefyllfa ariannol iach er peidio codi'r Praesept ers 3 blynedd
- Bydd digon o arian ar ôl yn y coffrau ar ôl rhannu cyfraniadau i fudiadau a chymdeithasau yng nghyfarfod mis Chwefror

Ymhlith y dadleuon dros **godi'r** Praesept oedd :-

- ei fod wedi aros yr un fath ers 3 blynedd
- fod codi 5% ar y Praesept (o £62,581.43 i £65,710.48) ond yn golygu cynnydd o £1.38 yn flynyddol i bob cartref Band D Treth Cyngor
- y pryder fod gadael y Praesept yr un fath eto yn golygu gorfod ei gynyddu'n sylweddol rhywbryd yn y dyfodol

Penderfynwyd :- peidio a chodi'r Praesept yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Carol Hayes yn eilio

287.1.23

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Tach / Rhagfyr 2022	£	19.27
------	-------------------------------	---	-------

Biliau i'w talu :-

Eglurodd y Clerc bod camgymeriad ar y rhestr ar y rhaglen gan iddi gynnwys bil R.J.Electrics am £6,222.87. Mae'r taliad yma wedi ei wneud eisoes yn dilyn penderfyniad cyfarfod mis Rhagfyr.

Audurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Alwyn Gruffydd yn

eilio:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Rhagfyr 2022	£ 52.76
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Rhagfyr 2022	£ 922.97
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Rhagfyr 2022	£ 230.74
5	Y Ganolfan	Clwb Ieuenctid ychwanegol 6.12.22	£ 50.00
6	Y Ganolfan	Cyfarfodydd Rhagfyr 2022	£ 70.00
7	Gardencraft	Adleoli ac ail lenwi twb blodau o flaen siop Crefft	£ 60.00
8	Cyngor Gwynedd	Cytundeb Toiledau 2022-23 - ail anfoneb Gweler copi o gytundeb 2019 – 2020 ynghlwm (Gohebiaeth 15)	£ 8,000.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

288.1.23 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais .: C22/1161/44/LL (wedi ebostio i'ch sylw 22.12.22)

Lleoliad : Fferm Farm Yard Ffordd Glanrafon, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PP

Bwriad : Codi adeilad amaethyddol dros storfa biswail bresennol

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais .: C22/1162/44/CC (wedi ebostio i'ch sylw 23.12.22)

Lleoliad: Bodawen Nursing Home, Bodawen Ffordd Glanrafon, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PR

Bwriad : Gwaith tocio a chynnal ar goed amrywiol sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Marian Roberts

(Clerc)